

Prentisiaid 2018

Cwestiynau cyffredin

llyw.cymru/prentisiaid2018

Desg Gymorth Cydwasanaethau

Ffôn: 03000 25 5454

E-bost: sharedservicehelpdesk@gov.wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

I ateb eich ymholiad, dylid cyfeirio yn y lle cyntaf at ein canllaw cam wrth gam a'n gwefan. Os na allwch ddod o hyd i ateb yno, darllenwch y Cwestiynau Cyffredin hyn. Neu gallwch ffonio'r Ddesg Gymorth Cydwasanaethau ar y rhif uchod.

1. Pryd alla i ymgeisio?

Bydd cyfnod ymgeisio i ymgyrch Prentisiaid Llywodraeth Cymru 2017 yn dechrau ar 4 Rhagfyr 2018 ac yn dod i ben am 4pm ar 4 Ionawr 2019.

Cyn cwblhau eich cais, cofiwch sicrhau eich bod wedi ymweld â'r wefan i gadarnhau eich bod yn bodloni'r meini prawf cymhwysra.

2. Alla i ymgeisio ar ôl y dyddiad cau?

Ni fyddwch yn gallu cyflwyno cais ar ôl y dyddiad cau sef 4pm ar 4 Ionawr 2019. Os collwch y dyddiad cau hwn ni fydd cyfle i ymgeisio eto tan yr ymgyrch nesaf.

3. Beth os ydw i'n cael trafferthion technegol?

Os cawsoch unrhyw drafferthion technegol gyda'r cais ar-lein dylech gysylltu â'r Ddesg Gymorth Cydwasanaethau drwy'r manylion cyswllt uchod.

4. Alla i ddiwygio fy manylion personol ar ôl i mi gyflwyno fy nghais?

Unwaith rydych chi wedi cyflwyno eich cais, ni allwch ddiwygio neu ddileu unrhyw wybodaeth ar y ffurflen, felly gwnewch yn siŵr bod eich manylion yn gywir cyn cyflwyno.

Fodd bynnag, gallwch newid rhai o'r prif fanylion cyswllt a ddarparwyd gennych i gofrestru ar y system. Os ar unrhyw adeg mae angen i chi newid eich cyfeiriad e-bost cofrestredig, gallwch wneud hyn drwy logio i mewn i'ch cyfrif ar system ymgeisio ar-lein Llywodraeth Cymru, a mynd at yr adran ' Golygu manylion personol'.

5. Sut y mae ffurflen gais Llywodraeth Cymru'n wahanol i'r ffurflen Cymeradwyo Prentisiaeth?

Ffurflen gais Llywodraeth Cymru yw eich prif gais ar gyfer elfen profiad gwaith y cynllun prentisiaethau. Mae'r ffurflen Cymeradwyo Prentisiaeth yn rhan o asesiad ALS o'ch cymhwysedd i gael y

cyllid ac i gyflawni'r prentisiaeth Lefel 3 mewn TGCh, Meddalwedd, y We a Thelathrebu.

6. Sut y bydd fy rhaglen ddysgu'n cael ei darparu?

ALS yw ein darparwyr hyfforddiant. Nhw fydd yn darparu hyfforddiant lefel 3 yr Prentisiaeth; i dderbyn cyngor a gwybodaeth i'ch helpu i ddeall mwy am ALS a'r hyfforddiant y maent yn ei ddarparu, ewch i:

<http://www.acornlearning.co.uk/apprenticeships/apprentices/wales>

7. Ydy hi'n bwysig fy mod i'n ateb y cwestiynau ar amrywiaeth?

Rydym wedi ymrwymo i fod yn Gyflogwr Cyfle Cyfartal. Rydym eisiau sicrhau y caiff ein holl ymgeiswyr eu trin yn deg a'u penodi ar sail eu haddasrwydd ar gyfer y swydd yn unig, waeth pwy ydych chi neu o ble'r ydych yn dod.

I'n helpu i fesur pa mor effeithiol yr ydym yn cyfathrebu ac yn denu ystod amrywiol o bobl i weithio gyda nhw, gofynnwn i chi lenwi ffurflenni monitro amrywiaeth a chdraddoldeb.

Rydym yn sensitif i'r ffaith y byddai'n well gan rai pobl beidio â llenwi ffurflenni amrywiaeth – naill ai oherwydd bod arnynt ofn y bydd yr wybodaeth yn cael ei chamdefnyddio neu oherwydd eu bod yn ystyried bod rhai o'r cwestiynau yn hynod bersonol. Byddem yn hoffi tawelu eich meddwl ynglŷn â hyn.

Gallwn eich sicrhau y cedwir y wybodaeth a roddwch ar wahân i'r wybodaeth a ddefnyddir i wneud penderfyniadau recriwtio. Ni ddefnyddir y wybodaeth i ddylanwadu ar benderfyniadau recriwtio.

Mae'r holl wybodaeth yn gwbl gyfrinachol ac yn LLWYR at ddibenion ystadegol ac i sicrhau bod polisiau'n cael eu cymhwyso'n deg; bydd ond yn cael ei rhannu â nifer gyfyngedig o staff awdurdodedig.

Ni fyddwn yn gwahaniaethu yn erbyn unigolion sy'n penderfynu peidio â llenwi'r ffurflen. Fodd bynnag gofynnwn fod cymaint o bobl â phosib yn cytuno i'n helpu i fesur amrywiaeth – oherwydd ei bod yn bwysig i ni.

8. Beth yw'r Cynllun Hyderuso ran Anabledd?

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu o dan y Cynllun Hyderus o ran Anabledd, ac yn croesawu ceisiadau gan bobl ag anableddau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio rhywun sy'n anabl os oes ganddynt nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol hirdymor a sylweddol ar eu gallu i gyflawni gweithgareddau beunyddiol arferol.

O dan y cynllun bydd ymgeisydd anabl yn cael ei ddewis i gael cyfweiliad os yw'n bodloni'r meini prawf gofynnol hanfodol ar gyfer y brentisiaeth.

9. Dydy dyddiadau'r cyfweiliad ddim yn gyfleus i mi – beth ddylwn i ei wneud?

Rydym yn cynnal cyfweiliadau dros gyfnod o pythefnos, rhwng y 21 Ionawr a 1 Chwefror 2019. Mae'n bosib y byddwn yn penderfynu cynnig un neu ddau o ddyddiadau eraill, ond dydyn ni ddim yn siŵr ar hyn o bryd. Felly dylech fynd ati i gynllunio i ddod i'r cyfweiliad ar y dyddiadau sydd wedi'u rhestru yn ein taflen ganllawiau.